Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

## Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020

## Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2017 - Crynodeb

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

# 1. Cyflwyniad

**Dyma grynodeb o drydydd adroddiad gweithredu blynyddol Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, ar gyfer y flwyddyn adrodd 2017**

## Trosolwg

**Mae Cymru'n elwa ar oddeutu €2.4 biliwn o gronfeydd yr UE drwy bedair rhaglen y Cronfeydd Strwythurol 2014-2020. Mae hyn yn cynnwys oddeutu €200 miliwn drwy raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i helpu i gyflawni twf economaidd drwy hyrwyddo lefelau uchel o gyflogaeth gynaliadwy gan ddatblygu gweithlu medrus ac ymatebol heddiw ac i'r dyfodol.**

**Awdurdod Rheoli'r Rhaglen yw Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), o fewn Llywodraeth Cymru.**



## Ynghylch y Rhaglen

Mae rhaglen ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

- targedu tlodi ac allgau cymdeithasol drwy hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy;
- buddsoddi mewn gweithlu medrus; a
- buddsoddi yn ein pobl ifanc i sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd.

Mae'r Rhaglen yn hwyluso datblygiad portffolio cytbwys o fuddsoddiadau'n targedu materion tymor byr drwy sicrhau gwelliannau o'u cymharu â dangosyddion allweddol megis canlyniadau cyflogaeth a chymwysterau, ac ar yr un pryd ceisio cyflawni canlyniadau tymor hir megis mynd i'r afael â materion strwythurol ynghylch diweithdra pobl ifanc a phobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a gwella safon gofal plant.



# Meysydd blaenoriaeth y Rhaglen:

## Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi trwy Gyflogaeth Gynaliadwy

- Cynyddu cyflogadwyedd y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi.
- Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n Economaidd Anweithgar ac sydd wedi bod yn Ddi-waith am Gyfnod Hir sy'n 25 oed a hŷn sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth.
- Gostwng cyfraddau tangyflogaeth neu absenoldeb unigolion cyflogedig sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith a/neu rwystrau eraill i ymgysylltu â'r farchnad lafur mewn modd cynaliadwy.

## Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

- Cynyddu lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y gweithlu sydd â lefel isel o sgiliau, os o gwbl.
- Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i waith ar lefel gan-olraddol ac uwch.
- Cynyddu nifer y bobl sydd â graddau israddedig neu raddau cyfwerth sy'n ymgymryd â gweithgareddau ymchwil ac arloesedd gyda mentrau.
- Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu.

## Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc

- Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET).
- Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sy'n wynebu risg o ddod yn NEET.
- Cynyddu lefelau cofrestru a chyrhaeddiad pynciau STEM ymhlith pobl ifanc 11-19 oed.
- Cynyddu sgiliau'r gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

## Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol


- Sicrhau bod rhaglenni 2014-2020 yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.
- Rhoi cyngor o ansawdd uchel i bartneriaid allweddol sydd ynghlwm wrth ddylunio a chyflawni gweithrediadau.
- Gwella'r broses o integreiddio buddsoddiadau â chronfeydd ESI eraill ynghyd â rhaglenni ehangach a arweinir gan y Comisiwn ac sy'n seiliedig ar Sector, a'u gwneud yn fwy ategol.

# Cyllideb ar gael ar gyfer Blaenoriaethau'r Rhaglen:

| Blaenoriaeth | Cyllideb yr UE | Cyfanswm y Gyllideb[1] |
|---|---|---|
| Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi trwy Gyflogaeth Gynaliadwy | €196 miliwn | €248 miliwn |
| Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf | €348 miliwn | €482 miliwn |
| Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc | €245 miliwn | €329 miliwn |
| Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol | €16 miliwn | €22 miliwn |
| **Cyfanswm ar gael o fewn y Rhaglen** | **€805 miliwn** | **€1,801 miliwn** |

[1] Swm Cyllideb yr UE wedi ei gyfuno ag arian cyfatebol

## Rhanbarthau Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru ar gyfer 2014-2020




© Hawlfraint y Goron 2017
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/147/14.15
Ionawr 2017

# 2. Cynnydd y Rhaglen

## Trosolwg

Erbyn diwedd 2017, roedd Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi €637 miliwn o gronfeydd yr UE mewn 47 prosiect, gan arwain at gyfanswm o €984 miliwn o fuddsoddiad yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.


Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol mewn nifer o ddangosyddion y Rhaglen yn ystod 2017, yn cynnwys:

- cefnogwyd oddeutu 89,000 o bobl a dros 25,000 o'r rheini yn bobl ifanc
- enillwyd 26,500 o gymwysterau
- cafodd oddeutu 5,300 o bobl gymorth i gael cyflogaeth
- ymgymerodd bron i 3,900 o bobl ag addysg bellach

## Cynnydd Ariannol

Mae'r siart yn dangos, ar lefel Flaenoriaeth, gyfanswm dyraniad cronfeydd yr UE, a faint o arian a fuddsoddwyd mewn prosiectau ac a wariwyd gan brosiectau.

**Siart 1: Cronfeydd yr UE: Cyllideb, wedi ei**



# 3. Cynnydd fesul Blaenoriaeth

## Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi Trwy Gyflogaeth Gynaliadwy



**Mae helpu pobl i gael cyflogaeth gynaliadwy yn allweddol i leihau lefelau tlodi  a chynyddu cynhwysiant cymdeithasol. Mae cyllid yr UE yn helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag dod o hyd i waith ac mae'n canolbwyntio ar gynyddu cyflogaeth a gweithgarwch economaidd ledled Cymru.**

Erbyn diwedd y flwyddyn, buddsoddwyd 70% (€137 miliwn) o Gyllid yr UE a oedd ar gael o fewn y Flaenoriaeth hon mewn deg o brosiectau. Roedd y rhan fwyaf o'r buddsoddiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer buddiolwyr cyfredol i ehangu gweithgareddau a / neu ymestyn cylch bywyd cynlluniau.



Cafodd y cynllun cyflogaeth Gweithffyrdd +, a oedd eisoes yn cefnogi pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar ledled De-orllewin Cymru, fwy o gyllid yr UE i gynyddu maint y prosiect ac i helpu 2,000 o bobl ychwanegol.

I gyflawni targedau'r Rhaglen ar gyfer cyfranogwyr oedd wedi eu tangyflogi, fe lansiodd WEFO alwad gyllid yn haf 2017 i gefnogi mwy o gynigion prosiect.



Mae buddsoddiadau'r UE a wnaethpwyd mewn cynlluniau drwy'r alwad hon yn cynnwys y prosiect Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol ar gyfer pobl dros 25 oed dan arweiniad Coleg Gŵyr Abertawe. Mae'n darparu cefnogaeth benodol i helpu 600 o bobl i gael gwaith ac mae'n gweithio gyda chyflogwyr lleol i ehangu a chryfhau eu gweithlu.

Erbyn diwedd 2017, roedd y prosiectau a oedd yn elwa ar gyllid yr UE o fewn y flaenoriaeth hon wedi cefnogi dros 15,900 o gyfranogwyr a llwyddodd 2,400 o'r rhain i gael gwaith.

# Astudiaeth Achos: Gweithffyrdd+




Gyda chefnogaeth o £17.5 miliwn o gyllid yr UE, mae cynllun Gweithffyrdd + yn helpu pobl ddi-waith hirdymor yn Ne-orllewin Cymru i gael gwaith drwy ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd profiad gwaith am dâl.

Mae’r cynllun yn cynnig mentora un i un, cymorth wrth geisio gwaith a chymorth â sgiliau cyfweliad, a chyfle i gael cymwysterau newydd.

Nod Gweithffyrdd + yw cefnogi 6,000 o bobl ledled De-orllewin Cymru erbyn 2020. Un o’r cyfranogwyr a gafodd fudd o’r gefnogaeth yw James o Benfro a fu’n ddi-waith am 20 o flynyddoedd ar ôl dioddef o orbryder difrifol ac iselder pan oedd yn y brifysgol. Roedd eisiau gwella ei sefyllfa ac fe ddysgodd ei hun am raglennu cyfrifiaduron, gosod caledwedd a chywiro diffygion cyn cael ei gyfeirio at Gweithffyrdd +.

Trefnodd ei fentor Gweithffyrdd + personol leoliadau gwaith i James ac yn sgil hyn daeth cyfle am dri mis o waith â thâl gyda chwmni argraffu digidol arbenigol.

Roedd James yn llwyddiannus yn ei swydd newydd, a dysgodd sgiliau gweithle newydd a defnyddiodd ei sgiliau rhaglennu i ehangu cynhyrchion a gwasanaethau’r cwmni. Roedd swydd wag ar gael ar ôl iddo gwblhau ei brofiad gwaith a chafodd swydd amser llawn.

Dywedodd James: "Mae cael swydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Mae gennyf i fwy o hyder ac rwy’n mwynhau codi a mynd i’r gwaith i wneud rhywbeth yr wyf yn ei hoffi. Rwy’n defnyddio fy sgiliau rhaglennu i ddatblygu cynhyrchion newydd yn y cwmni. Heb gymorth Gweithffyrdd + ni fyddwn wedi cael y cyfle hwn. Rwy’n hapusach o lawer nawr ac mae lefelau’r gorbryder wedi gostwng yn sylweddol.”






# Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf




**Bydd cynyddu sgiliau a mynediad at hyfforddiant yn helpu i greu gweithlu cryf ac amrywiol a all ymdrin â heriau'r farchnad lafur ac ysgogi cynhyrchiant economaidd a thwf busnes. Mae cyllid yr UE yn helpu i gynyddu sgiliau galwedigaethol a sgiliau lefel uwch. Mae cyllid yr UE hefyd yn helpu i leihau anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, cynyddu amrywiaeth yn y gweithlu, ac yn cefnogi datblygiad menywod yn y gweithlu.**

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd oddeutu 87% (€303 miliwn) o gyllid yr UE oedd ar gael o fewn y flaenoriaeth hon wedi'i fuddsoddi mewn 16 o brosiectau, gan gynnwys rhaglen Brentisiaethau Llywodraeth Cymru ac Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS 2) Prifysgol Bangor.

Drwy gydol y flwyddyn cafodd y buddsoddiadau eu canolbwyntio ar ehangu'r gweithgareddau a / neu ymestyn cylch bywyd cynlluniau. Dyfarnwyd rhagor o gyllid yr UE i ymestyn Sgiliau Gwaith i Oedolion 2, dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, ac Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu dan arweiniad Prifysgol Abertawe.

Gwnaethpwyd cynnydd da o'i gymharu â thargedau'r Flaenoriaeth, gyda phrosiectau yn cofnodi mwy na 47,500 o gyfranogwyr, ac enillodd mwy na 18,300 o'r rheini gymwysterau.











# Astudiaeth Achos: Cenedl Hyblyg 2

Gyda chefnogaeth £5.6 miliwn o gyllid yr UE, mae prosiect Cenedl Hyblyg 2 Chwarae Teg yn helpu merched i ddatblygu eu gyrfaoedd drwy gymwysterau arwain wedi'u hachredu a mentora. Mae hefyd yn cefnogi busnesau i weithredu strategaethau cydraddoldeb ac arferion gwaith modern.



Bydd mwy nag 1,400 o ferched yn elwa ar y cynllun hwn. Dywedodd un cyfranogwr: "Gyda chefnogaeth Chwarae Teg, fe roddais i gynnig arni a gwneud cais am swydd newydd. Defnyddiais dystiolaeth o'm mhrofiad gyda Chwarae Teg yn ystod y cyfweliad, ac rwy'n credu bod hyn wedi fy helpu i gael y swydd.

"Ers y cwrs, mae fy nghyflog blynyddol £5,000 yn fwy a bydd yn parhau i godi 5% y flwyddyn am y tair blynedd nesaf. Heblaw fy helpu i godi fy nghyflog mae Chwarae Teg wedi fy helpu i symud o swydd a chwmni ansefydlog i gontract parhaol mewn sefydliad sefydlog.




"Rwyf yn awr mewn swydd reoli, lle rwy'n rheoli fy hun, yn gweithio gyda phobl o gefndiroedd gwahanol, ac rwy'n eu hyfforddi i gymryd camau yn nes at gyflogaeth.

"Yn y dyfodol agos, fe fyddaf yn gweithio tuag at reoli tîm gan ddefnyddio'r profiad hwn. Nawr byddaf o hyd yn ceisio symud ymlaen a datblygu fy hun cymaint â phosibl. Rwy'n hapusach o lawer!"

# Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc



**Bydd cefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn helpu i leihau diweithdra ymhlith pobl ifanc a gwella'u rhagolygon gyrfa a bywyd. Mae cronfeydd yr UE yn canolbwyntio ar godi lefelau cyflawniad, lleihau nifer y bobl sy'n gadael yr ysgol yn gynnar a chefnogi'r rhai hynny sydd mewn perygl o fod yn NEET.**

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd 74% (€181 miliwn) o gyllid yr UE a oedd ar gael o fewn y Flaenoriaeth hon wedi ei fuddsoddi mewn 15 o brosiectau, yn cynnwys dau fuddsoddiad yr UE a wnaethpwyd yn ystod 2017 ar gyfer prosiectau NEET, ADTRAC, dan arweiniad Grŵp Llandrillo Coleg Menai, a Cam Nesa, dan arweiniad Cyngor Sir Penfro.


Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd prosiectau wedi cefnogi dros 20,000 o bobl ifanc, gan ddangos cynnydd sylweddol o'i gymharu â thargedau i leihau nifer y bobl NEET, neu sydd mewn perygl o fod yn NEET.

Mae rhagolygon perfformiad y prosiect yn galonogol, sydd yn ei gwneud hi'n bosibl i'r cyllid sy'n weddill gael ei fuddsoddi mewn meysydd penodol pwysig, megis cynyddu'r nifer fydd yn astudio pynciau STEM, yn enwedig i fenywod ifanc a merched, ac atal oedolion ifanc sydd eisoes mewn addysg bellach ond mewn perygl o adael, rhag bod yn NEET.






# Astudiaeth Achos: TRAC 11-24 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)




Mae TRAC 11-24 yng ngogledd Cymru yn helpu i leihau nifer y bobl ifanc 11-24 oed sydd mewn perygl o fod yn NEET (nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant).

Dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych, a gyda chymorth £9 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, mae'r cynllun yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a cholegau Addysg Bellach. Mae'n gweithio'n agos gydag ysgolion i nodi a chefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg a hyfforddiant.

Mae TRAC 11-24 yn darparu amrywiaeth o gymorth iechyd a lles sy'n ategu ac nid dyblygu gwasanaethau prif ffrwd. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaeth cwnsela, cyngor ar lesiant a phresenoldeb, cyrsiau a lleoliadau gwaith a chyngor pwrpasol gan Gyrfa Cymru.

Mae myfyrwyr sy'n cael anawsterau dysgu yn derbyn mentor ag arbenigedd mewn amrywiaeth o faterion, gan gynnwys tai, lles ac iechyd a llesiant er mwyn i fyfyrwyr allu canolbwyntio ar eu dysg a sicrhau eu bod yn parhau i ymgysylltu ag addysg.

Nod y prosiect yw cefnogi dros 9,000 o bobl ifanc, ac mae eisoes wedi cyflawni llawer o ganlyniadau rhagorol, gan gynnwys:

- lleoliadau gwaith sy'n cynnwys swyddi parhaol
- colegau sy'n cynnig lleoedd diamod
- gwell sgôr llesiant
- cymwysterau mewn amrywiaeth o alwedigaethau
- cannoedd o bobl ifanc yn datblygu sgiliau newydd i helpu i lunio'u dyfodol
- perthnasoedd cryfach o fewn teuluoedd a llawer o gysylltiadau a ffrindiau newydd.



# Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol

**Mae Cymorth Technegol yn adnodd hanfodol y mae WEFO a phartneriaid eraill yn ei ddefnyddio i gefnogi cyflawniad effeithiol y Rhaglen.**

Erbyn diwedd 2017, buddsoddwyd oddeutu 100% o gyllid yr UE a oedd ar gael dan y Flaenoriaeth hon mewn chwe phrosiect. Mae hyn yn cynnwys cymorth refeniw i WEFO gyflawni'r rhaglen, y pedwar Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol wedi'u lleoli yn y Gogledd, y Canolbarth, Bae Abertawe a De-ddwyrain Cymru, a chymorth refeniw Corff Cyfryngu i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Ni ragwelir unrhyw ymrwymiad pellach.








Mae rhagor o wybodaeth am Raglen ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yma.

@wefocymru

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**
**European Social Fund**